OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1341 (Cy.132)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2006

Wedi'i wneud	- -	*16 Mai 2006*
Yn dod i rym	- -	*31 Mai 2006*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 7(1) a (4) a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau o'r farn y gall Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, o ystyried ei amcanion cyffredinol, gyflawni'n briodol y swyddogaethau ychwanegol a roddir drwy hyn ar ôl cyflawni unrhyw ymgynghori y mae o'r farn ei fod yn briodol, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2006 a daw i rym ar 31 Mai 2006.

Diwygio Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000

2. Mae Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000(**3**)yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) yn Rhan I o'r Atodlen, ym mharagraff 2 ar ôl "(c)"mewnosoder ", (3B)"; a

(b) yn Rhan II o'r Atodlen, ar ôl paragraff 20, mewnosoder—

"**20A.** Pan yw person yn athro neu'n athrawes gymwysedig sy'n anghymwys i gael ei gofrestru yn unol ag adran 3(3B) o Ddeddf 1998(**4**), (h.y. gan nad yw'r Cyngor wedi'i fodloni bod y person yn addas i fod yn athro neu'n athrawes), manylion yn nodi ar ba sail y penderfynwyd gwrthod y cais.".

(**1**) 1998 p.30. Mae'r darpariaethau perthnasol yn gymwys o ran Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rhinwedd adrannau 8 a 9 o'r Ddeddf a Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 1998 (O.S. 1998/2911).
(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 2000/1941 (Cy.139), a ddiwygiwyd gan O.S. 2001/2497 (Cy.201) ac O.S. 2005/68 (Cy.6).
(**4**) Mewnosodwyd adran 3(3B) o Ddeddf 1998 gan baragraff 3(5) o Atodlen 12 i Ddeddf Addysg 2002 (p.32).